# Uned 1 UG: Ein Hamgylchedd Adeiledig

## 2.1.6: IS-STRWYTHURAU (1 o 3)

### Termau Allweddol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Isbridd** | At ddibenion dylunio sylfaen, y strata islaw uwchbridd â chapasiti digonol a all gynnal llwythi cymhwysol. |
| **Sylfeini** | Elfennau strwythurol sy'n trosglwyddo llwythi adeiladu i haenau isbridd neu graig sydd â digon o gapasiti a nodweddion setlo i'w cynnal. |
| **Sylfeini Bas** | Defnyddir lle mae llwythi a osodir gan strwythur yn isel mewn perthynas â chapasiti dal yr isbridd naturiol. |
| **Sylfeini Dwfn** | Ateb wedi'i beiriannu i ddarparu sylfaen lle mae angen trosglwyddo llwythi a osodir i haenau dyfnach a chapasiti dal llwyth yn uwch. |
| **Daeareg** | Astudiaeth o'r deunyddiau y mae'r Ddaear yn cael ei gwneud ohonyn nhw, gan gynnwys eu strwythurau a'r prosesau sy'n gweithredu arnyn nhw. |
| **Hydroleg** | Y wyddoniaeth sy'n ymwneud â rhinweddau, dosbarthiad a chylchrediad dŵr ar y ddaear ac o dan y ddaear. |
| **Islawr** | Rhan o adeilad sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o dan lefel y ddaear. Mewn anheddau, mae islawr yn ystafell y gellir byw ynddi, yn wahanol i seler, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer storio neu i gartrefu system wresogi'r tŷ ac ati. |
| **Wal gynnal** | Strwythur fertigol sydd wedi'i chynllunio i gynnal neu gadw deunydd yn ôl ar un ochr, gan ei hatal rhag dymchwel. |

### YMCHWILIAD SAFLE

Mae ymchwilio i rinweddau isbridd a chyflwr tir yn gam hanfodol ym mhob prosiect adeiladu er mwyn penderfynu:

- a yw'r safle'n addas
- ble yw'r lle gorau i adeiladu ar y safle
- math a dyfnder y sylfeini sydd eu hangen
- maint unrhyw welliannau angenrheidiol i'r tir.

Bydd prosiectau adeiladu mwy yn gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (EIA - *Environmental Impact Assessment*) a fydd yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gyflwr y ddaear sy'n cynnwys ymchwil mewn swyddfa ac arolwg maes.

### YMCHWILIAD SAFLE O SWYDDFA

Astudiaethau sy'n seiliedig ar fapiau daearegol, cofnodion cloddio a ffynonellau hanesyddol ac amgylcheddol eraill i sefydlu gwybodaeth megis:

- peryglon llifogydd, lefel trwythiad, ffynhonnau naturiol neu gyrsiau dŵr
- mathau o bridd a pheryglon tirlithriadau neu ymsuddiant
- defnydd hanesyddol, strwythurau claddedig, hen fwynfeydd, halogiad daear posibl
- agosrwydd at unrhyw adeiladau neu gloddiadau arfaethedig
- lleoliad y gwasanaethau tanddaearol presennol.

Bydd yr ymchwil o swyddfa yn llywio'r gofynion ar gyfer ymchwiliad pellach ar y safle.

Dylid nodi polisïau cynllunio a fwriedir i atal risgiau annerbyniol rhag llygredd ac ansefydlogrwydd tir, a chyfyngu ar effeithiau llygredd ar iechyd, yr amgylchedd naturiol neu amwynder cyffredinol, a chyflwyno cynigion manwl ar gyfer sicrhau datblygiad diogel yn ystod y cam cynllunio.

### ASTUDIAETH MAES / YMCHWILIAD SAFLE

Bydd arolwg safle yn sefydlu nodweddion, lefelau a dimensiynau ffisegol, gan gynnwys manylion y seilweithiau cyfagos.

Mae angen i'r arolwg safle gynnwys ymchwiliadau daear i helpu i benderfynu:

- lefel trwythiad a llifoedd dŵr
- natur diffygion neu wagleoedd tanddaearol
- trwch a dyfnderoedd yr haen isbridd
- rhinweddau, gan gynnwys capasiti dal, yr isbridd.

Gellir defnyddio dulliau archwilio amrywiol hefyd i ddilysu canfyddiadau ymchwil ac ymchwilio i amodau'r ddaear, gan gynnwys:

- Cloddio pyllau prawf i ymchwilio i amodau'r tir bas a sefydlu mathau o bridd a dyfnder.
- Drilio tyllau turio i ymchwilio i fformatio daearegol dyfnach, cael samplau craig a chwilio am fylchau, fel hen fwynfeydd.
- Samplu priddoedd
  - Samplau heb eu tarfu. Defnyddir amodau pridd nodweddiadol/gwirioneddol i asesu rhinweddau strwythurol.
  - Samplau wedi'u tarfu. Lle mae strwythur y pridd wedi'i gywasgu neu wedi'i newid fel arall. Fe'u defnyddir i asesu maint gronynnau, cynnwys dŵr ac ati.

Gellir cynnal profion pridd ar y safle hefyd, gan gynnwys:

- Prawf treiddio safonol i sefydlu ymwrthedd i dreiddio drwy yrru samplwr i mewn i'r pridd gan ddefnyddio pwysau safonol.
- Prawf llafn i amcangyfrif cryfder croesrym priddoedd meddal fel clai dirlawn.
- Prawf pwyso plât i fesur capasiti dal tir.

